This document is available in English

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

**Polisi Corfforaethol - 10**

**Polisi Parhad Busnes**

**Datganiad Gweithredol**

Un o ofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 a Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yw bod gan y Gwasanaethau Tân ac Achub (GTA) drefniadau parhad busnes (PB) mewn lle fel y gellir cynnal lefel gofynnol o ymateb ar bob adeg.

Mae'r Polisi Rheoli Parhad Busnes (RhPB) yn gosod y fframwaith ar gyfer y Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB).

Mae'r Polisi yn dynodi ymrwymiad clir y Gwasanaeth i weithredu'r Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB) ac yn mynegi datganiad bwriad cyhoeddus a ardystiwyd gennyf i a'r Tîm Arwain Gweithredol (TAG) ill dau.

Mae aelodau a rheolwyr Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (ATADC) wedi'u hymrwymo i gorffori egwyddorion parhad busnes o fewn diwylliant ac ymddygiad y Gwasanaeth cyfan. Cymeradwywyd y Polisi hwn gan ATADC a'r Tîm Arwain Gweithredol (TAG). Bydd y Polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau'n unol â gweithgareddau ac amcanion strategol. Hefyd, caiff ei ddiweddaru yn ôl y gofyn i adlewyrchu unrhyw newidiadau gweithdrefnol neu fusnes ac yn unol hefyd â dysg o unrhyw weithrediadau o'r cynlluniau neu ymarferion a hyfforddiant.

Arwyddwyd: ______________ Dyddiedig: 29. 1. 20.

PSTC Gwasanaethau Technegol

## Polisi

### 1 Pwrpas, Cwmpas a Defnyddwyr

1.1 Pwrpas y Polisi hwn yw diffinio'r amcanion, y cwmpas a'r rheolau sylfaenol ar gyfer Rheoli Parhad Busnes (RhPB).

1.2 Cymhwysir y Polisi i'r System Rheoli Parhad Busnes (SRhPB) gyfan.

1.3 Mae defnyddwyr y ddogfen hon oll yn weithwyr i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, yn ogystal â phob cyflenwr a phartner allanol sydd â rôl yn y System Rheoli Parhad Busnes (SRhPB).

### 2 Rheoli Parhad Busnes

#### 2.1 Pwrpas Rheoli Parhad Busnes (RhPB)

2.1.1 Pwrpas RhPB yw adnabod bygythiadau posib i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) a'r effaith ar weithrediadau busnes gall y bygythiadau hyn achosi, a darparu fframwaith i adeiladu hydwythedd sefydliadol sydd â galluogrwydd ymateb effeithiol.

2.1.2 Mae GTADC yn cydnabod ei ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004[1] ac yn ymrwymo i sicrhau bydd Rheoli Parhad Busnes (RhPB) grymus ac effeithiol mewn lle fel mecanwaith allweddol i gynnal y swyddogaethau craidd pe bai amhariad neu argyfwng yn codi.

#### 2.2 Diffiniad Rheoli Parhad Busnes (RhPB)

2.1.2 Gellir diffinio Rheoli Parhad Busnes (RhPB) fel [2]:

*"Proses rheoli cyfannol sy'n adnabod bygythiadau posib i sefydliad a'r effeithiau gall y bygythiadau hynny achosi, pe'u gwireddir, ar weithrediadau busnes ac sy'n darparu fframwaith ar gyfer adeiladu hydwythedd sefydliadol sydd â'r gallu ar gyfer ymateb effeithiol sy'n diogelu buddiannau ei gyfranddalwyr allweddol, ei enw da, ei frand a gweithgareddau sy'n creu gwerth."*

[1] *Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004*

[2] *ISO22301:2012 Diogelwch Cymdeithasol – Systemau Rheoli Parhad Busnes (RhPB) – Gofynion*

2.2.2 Felly proses rheoli a llywodraethu parhaol yw Rheoli Parhad Busnes (RhPB) a gefnogir gan uwch reolwyr ac a adnoddir yn briodol i sicrhau bydd GTADC yn barod ar gyfer unrhyw amhariad neu argyfwng a all effeithio darpariaeth ei swyddogaethau craidd:

- Hyrwyddo diogelwch tân - gan gynnwys darparu gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gamau i'w cymryd i atal tanau a rhoi cyngor ar sut i atal tanau ac ar y modd o ddianc o adeiladau mewn achos o dân.
- Ymladd Tanau - diffodd tanau a diogelu bywyd ac eiddo mewn achos o dân.
- Ymateb i ddamweiniau traffig ar y ffyrdd (gwrthdrawiadau) - achub pobl mewn achos o ddamweiniau traffig ar y ffyrdd a diogelu pobl rhag niwed difrifol mewn achos damweiniau traffig ar y ffyrdd.
- Delio ag argyfyngau rhagnodedig arall - delio, pan fo'n angenrheidiol, ag argyfyngau, heblaw am danau a damweiniau traffig ar y ffyrdd.

Mae GTADC hefyd yn 'ymatebwr categori 1' at ddibenion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Prif rôl ymatebwr categori 1 yw asesu risg argyfyngau rhag digwydd a chreu, cynnal a chyhoeddi cynlluniau priodol.

## 2.3 Gosod Amcanion Parhad Busnes

2.3.1 Mae gan y Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB) yr amcanion allweddol dilynol:

- Galluogi cyflawni blaenoriaethau strategol y Gwasanaeth (Cynllun Strategol GTADC ar gyfer 2018-2023)
- Sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, er enghraifft, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
  *-Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub (2004)*
  *-Y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004)*
  *-Y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) (2005)*
  *-Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009)*
  *- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*
  *-Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol (2016)*
- Adnabod gweithgareddau ar fyrder neu wedi'u blaenoriaethu (critigol i amser) ledled y Gwasanaeth a datblygu trefniadau parhad busnes grymus ac effeithiol iddynt.
- Sefydlu strwythurau diffiniedig i gynllunio ar gyfer digwyddiadau ac ymateb iddynt.
- Corffori parhad busnes i ddiwylliant GTADC fel y daw yn rhan annatod o wneud penderfyniadau.
- Diogelu enw da GTADC.

2.3.2 Mae Prif Swyddog Tân Cynorthwyol GTADC yn gyfrifol am osod yr amcanion ar gyfer y System Rheoli Parhad Busnes (RhPB) cyfan a'r dull o fesur llwyddiant yr amcanion hyn. Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn gyfrifol am adolygu'r amcanion hyn o leiaf unwaith y flwyddyn.

## 2.4 Cwmpas y Rhaglen

2.4.1 Mae Rheoli Parhad Busnes (RhPB) yn gymwys i holl seilwaith, swyddogaethau a meysydd gwasanaethu GTADC oni bai am Orsafoedd Tân; mae hyn oherwydd mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru 'Brotocol Gorsaf Allweddol' mewn lle. Lle bo'n gymwys, bydd hefyd yn cynnwys rheolaeth cytundebau a ddanfonwyd yn allanol, ac yn gofyn i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am eu trafod a'u rheoli i sicrhau y cynhwysir safonau parhad busnes priodol o fewn cytundebau, fel gall y darparwr gwasanaethau ddarparu safonau gwasanaethu derbyniol yn dilyn amhariad neu argyfwng.

2.4.2 O ganlyniad i faint neu swm y swyddogaethau a'r meysydd gwasanaethu, yn gychwynnol, gweithredir y Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB) mewn rhai rhannau o'r Gwasanaeth, ond bydd yn ymestyn i eraill dros gyfnod o amser.

## 2.5 Rolau a Chyfrifoldebau'r Rhaglen

2.5.1 Cynllunnir Rheoli Parhad Busnes (RhPB) i sicrhau ei fod yn weithgaredd brif ffrwd yn hytrach na dim ond ymateb brys. Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn hyrwyddo parhad busnes ledled y Gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod holl staff GTADC yn ymwybodol o'r Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB).

2.5.2 Dylai'r staff cyfan fod yn ymwybodol o'r Cynllun Parhad Busnes (CPB) sydd mewn lle ar gyfer eu hardal wasanaethu a'u rôl hwy wrth ddilyn arddeisyfu'r cynllun. Gellir canfod manylion pellach o rolau a chyfrifoldebau yn Atodiad A. Bydd y Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB) yn dilyn Canllawiau Arferion Da'r BCI[3]. Bydd Canllawiau Arferion Da'r BCI[3] yn helpu pob maes gwasanaethu wrth gydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol Rheoli Parhad Busnes (RhPB) ISO 22301:2012.

2.5.3 Mae'r gylchred Cynllunio, Cyflawni, Gwirio a Gweithredu (CCGG) yn sefydlu proses sy'n cyflawni, gweithredu, monitro, adolygu, cynnal a gwella'r System Rheoli Parhad Busnes (RhPB) yn barhaus i helpu amddiffyn, paratoi ar eu cyfer, ymateb i ac adennill pan fydd digwyddiadau aflonyddgar yn codi.

[3] *Y Sefydliad Parhad Busnes, Canllawiau Arferion Da 2018, Argraffiad Hollgynhwysol*

2.5.4 Fel rhan o adolygu a monitro'r rhaglen, yn ategol at yr adolygiad blynyddol, efallai bydd y Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB) yn cael ei harchwilio naill ai gan archwilwyr mewnol neu allanol i sicrhau bydd yr amcanion a nodwyd o fewn y Polisi yn cael eu cyflawni. Efallai gellir cynnal adolygiadau gan gyfoedion a gynhelir gan wasanaethau tân ac achub eraill os yw'n ofynnol.

## 3 Fframwaith Gweithredol

### 3.1 Rheoli'r Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB)

Bydd GTADC yn:

- Datblygu a chynnal Polisi Parhad Busnes sydd wedi'i alinio at amcanion strategol a phroses cynllunio busnes y Gwasanaeth, a gaiff eu hadolygu'n flynyddol.
- Sefydlu Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB) a gaiff ei alinio i'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Rheoli Parhad Busnes (RhPB) ISO 22301:2012
- Enwebu "eiriolwr" Rheoli Parhad Busnes (RhPB) i arwain a hyrwyddo'r Polisi Parhad Busnes ar hyd y Gwasanaeth.
- Enwebu aelod o'r Tîm Hydwythedd a Chynllunio fel "noddwr" i'r Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB).
- Sicrhau bydd trefniadau parhad busnes yn adlewyrchu lefel y risg sy'n dderbyniol gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
- Adolygu'r holl ddogfennaeth yn flynyddol neu ble bydd newidiadau sylweddol i bersonél, eiddo, cyflenwyr neu yn dilyn digwyddiad ac ati.
- Ymarfer Cynlluniau Parhad Busnes (CPB) yn flynyddol.
- Gwerthuso ymateb GTADC i ddigwyddiadau aflonyddgar ac adnabod meysydd ar gyfer datblygu pellach.
- Sicrhau bydd hyfforddiant ac ymwybyddiaeth yn allweddol ac yn rhan barhaol o'r Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB).

## 4 Cyfathrebu'r Polisi

4.1 Bydd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol yn sicrhau bydd pob gweithiwr i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, yn ogystal â'i gyflenwyr a'i bartneriaid allanol sydd â rôl yn y System Rheoli Parhad Busnes (SRhPB) yn gyfarwydd â'r Polisi hwn.

## 5 Dogfennaeth Gysylltiol

| Teitl y Ddogfen: | Llwybr Ffeil y Ddogfen |
|---|---|
| Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 | http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/36/pdfs/ukpga_20040036_en.pdf |
| *ISO22301:2012* Diogelwch Cymdeithasol | https://www.iso.org/standard/50038.html |
| Canllawiau Arferion Da'r BCI | http://www.thebci.org/index.php/resources/the-good-practice-guidelines |
| Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 | http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/21/contents |
| Fframwaith Cenedlaethol | https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/fire/151125-fire-rescue-framework-2016-en.pdf |

**Atodiad A – Rolau a Chyfrifoldebau**

1. Bydd yr **"eiriolwr" Rheoli Parhad Busnes (RhPB)** yn:

    - Gweithio â'r "noddwr" Rheoli Parhad Busnes (RhPB) wrth arwain darpariaeth a hyrwyddiad parhad busnes ar draws y Gwasanaeth, gan sicrhau ymrwymiad uwch rheolwyr ar hyd pob maes gwasanaethu.
    - Gweithio â'r "noddwr" Rheoli Parhad Busnes (RhPB) i sicrhau bydd uwch reolwyr yn ymrwymedig i sicrhau y gweithredir parhad busnes ar hyd eu meysydd gwasanaethu unigol.
    - Cefnogi'r Swyddog Hydwythedd a Chynllunio wrth sicrhau bydd uwch reolwyr yn gweithredu datrysiadau Rheoli Parhad Busnes (RhPB) priodol ar draws eu hadrannau.

2. Bydd **"noddwr" y Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB)** yn:

    - Gweithio â'r "eiriolwr" Parhad Busnes i sicrhau y cyflawnir y broses parhad busnes ar hyd y Gwasanaeth.
    - Perchnogi Rheoli Parhad Busnes (RhPB) ar lefel gorfforaethol o fewn yr Uwch Dîm Rheoli.
    - Noddi'r Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB).
    - Penodi Swyddog sy'n gyfrifol am Reoli Parhad Busnes (RhPB). Y Swyddog Hydwythedd a Chynllunio bydd hwn.
    - Derbyn adroddiadau o gynnydd gan y Swyddog Hydwythedd a Chynllunio sy'n gyfrifol am Reoli Parhad Busnes (RhPB)

3. Bydd yr **Uwch Dîm Rheoli** yn:

    - Gyfrifol am holl swyddogaethau'r Gwasanaeth, gan oruchwylio datblygu a gweithredu Rheoli Parhad Busnes (RhPB) ar draws GTADC.

4. Bydd y **Trysorydd a'r Prif Swyddogion** yn:

    - Perchnogi Rheoli Parhad Busnes (RhPB) o fewn eu Cyfarwyddiaeth.
    - Sicrhau bydd cynlluniau Rheoli Parhad Busnes (RhPB) mewn lle ar gyfer y gwasanaethau a'r gweithgareddau a ddarparwyd o fewn eu meysydd gwasanaethu.
    - Sicrhau y caiff y cynlluniau Rheoli Parhad Busnes (RhPB) hyn eu hadolygu a'u hymarfer yn flynyddol. Rhaid i'r broses hon fod yn archwiliadwy fel y gellir cipio manylion.
    - Sicrhau yr ystyrir galluogrwydd parhad cyflenwyr allweddol wrth drafod amodau cytundebau.
    - Hyrwyddo pwysigrwydd Rheoli Parhad Busnes (RhPB) i'r staff cyfan o fewn eu Cyfarwyddiaeth.

5. Bydd **Rheolwyr** yn:

- Gyfrifol, bob un, am gyflawni'r polisi o fewn eu meysydd o weithgarwch, gan gydymffurfio â threfniadau adrannol ar gyfer cynhyrchu a chynnal cynlluniau Rheoli Parhad Busnes (RhPB) priodol i gefnogi'u gwasanaeth a'i weithgareddau, gan eu cyflwyno hwy i'w Harchwilio a'u cymeradwyo ynghyd â briffio'u staff parthed eu cyfrifoldebau o fewn y cynllun.

6. Bydd disgwyl i **Weithwyr** :

- Gydweithredu a, lle bo'n briodol, fod yn rhan o'r trefniadau ymateb mewn achos lle bydd trefniadau Rheoli Parhad Busnes (RhPB) yn cael eu harddeisyf. Bydd yr ymrwymiad hwn hefyd yn cynnwys mynychu'r ymarferion a'r hyfforddiant priodol.

7. Bydd holl **Aelodau ATADC** yn:

- Gyfrifol am lywodraethiant effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol. Mae gan aelodau gyfrifoldeb i ddeall y risgiau strategol a phwysigrwydd Rheoli Parhad Busnes (RhPB) effeithiol wrth liniaru'r risg bydd amhariad i fusnes yn cael ar Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Rheolir y risgiau hyn drwy law'r broses cynllunio strategol a gwasanaethu blynyddol.

8. Bydd y **Swyddog Hydwythedd a Chynllunio** sy'n gyfrifol am Reoli Parhad Busnes (RhPB) yn:

- Darparu adroddiadau statws rheolaidd i'r "noddwr" Rheoli Parhad Busnes (RhPB) a'r "eiriolwr" Rheoli Parhad Busnes (RhPB) yn ôl y gofyn.
- Datblygu a chynnal Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB) a anelwyd at alinio'r Gwasanaeth i ISO 22301:2012.
- Datblygu, rheoli ac adolygu'r Gweithdrefnau Cynllunio Rheoli Parhad Busnes (RhPB).
- Datblygu, cynnal a rhannu portffolio o adnoddau – polisi, gweithdrefn, templedi.
- Hwyluso a llywio cyfarwyddiaeth ac adrannau wrth ddatblygu a gweithredu Dadansoddiad Effaith Busnes (DEB) a Chynllun Parhad Busnes (CPB).
- Datblygu a chyflawni rhaglenni ymwybyddiaeth fel bo'r angen.
- Datblygu a chynnal cydberthnasau gweithiol â phartïon allanol.
- Gweithio mewn partneriaeth â'n UDRh i sicrhau ein bod yn adeiladu hydwythedd i'n gwasanaethau allweddol a gweithio i liniaru bygythiadau a wynebir gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

**Atodiad B – Terminoleg**

**Rhaglen Rheoli Parhad Busnes (RhPB)** – Proses rheoli a llywodraethu parhaus a gefnogwyd gan yr Uwch Rheolwyr ac sydd wedi'i hadnoddu'n briodol i weithredu a chynnal Rheoli Parhad Busnes (RhPB). (Dyma ddiffiniad yr ISO o'r "Raglen Parhad Busnes").

**System Rheoli Parhad Busnes (RhPB)** - Rhan o'r system rheoli gyfansymiol sy'n sefydlu, cyflawni, gweithredu, monitro, adolygu, cynnal a gwella parhad busnes.

**Cynllun Parhad Busnes (CPB)** - Gweithdrefnau dogfennol sy'n llywio sefydliadau i ymateb, adennill, ail-gychwyn ac adfer hyd lefel rhagddiffiniedig o weithredu yn dilyn amhariad.